

Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru, 2017

7 Mehefin 2018
SFR 44/2018

1. Crynodeb Gweithredol

Cynhaliwyd arolwg defnydd ymysg darparwyr llety gwesty gyda graddiad yn ddi-dor ers 1972 i fonitro lefelau'r galw am ystafelloedd a gwelyau mewn gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb raddiad.

Newidiadau mewn Adroddiadau Defnydd

Bu newid i ddata defnydd gwestai o Ionawr 2014 ymlaen. Caiff data syndicâd ar gyfer tua chant o westai mwy (gyda 100+ ystafell) a ddarparwyd gan STR yn awr ei gynnwys wrth gyfrif defnydd gwestai Cymru yn gyffredinol. Mae data STR Global yn cynnwys defnydd a refeniw ond nid math o westeion (h.y. o'r Deyrnas Unedig neu dramor, teithwyr busnes neu rai heb fod yn deithwyr busnes). Cynhwysir data ers 2014 ond nid am unrhyw flynyddoedd cyn hynny. Mae cynnwys y data yma'n gwneud yr arolwg yn llawer mwy cadarn ond gall gael peth effaith ar dueddiadau cyn 2014.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafán, parciau carafanau teithio a gwersylla. Yn ychwanegol, yn 2008 cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys yn yr arolwg.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Arolwg Defnydd Llety Cymru 2017. Lle mae ar gael ac yn briodol, cyflwynir ffigurau y gellir eu cymharu o flynyddoedd blaenorol ym mhob rhan o'r adroddiad. Mae adrannau 3 i 9 yn edrych ar bob un o'r sectorau llety fel sy'n dilyn:

Gwestai

- Roedd cyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau yn 51% a defnydd ystafelloedd yn 67% ar gyfer 2017, cynnydd bach o un pwynt canran ar gyfraddau defnydd lleoedd gwely a gofnodwyd y flwyddyn flaenorol, gyda defnydd ystafelloedd yn parhau'n un fath â'r ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd yn y sector gwestai yn parhau ar eu lefelau uchaf yn y ddau fesur o ddefnydd yn ystod y ac ystafelloedd yn ystod y 11 mlynedd diwethaf.

Am y datganiad hwn

Crynodeb gweithredol	1
Cyflwyniad	5
Gwestai	6
Tai llety/Gwely a brecwast	18
Pob llety â gwasanaeth	29
Bythynnod a fflatiau hunan-ddarpar	32
Cartrefi gwyliau carafán	48
Parciau carafanau teithio a gwersylla	50
Hostelau a thai bynciau	53
Atodiadau	58

- Yn 2017, cynyddodd defnydd blynyddol cyfartalog gwelyau gan 1 pwynt canran ac arhosodd cyfraddau cyfartalog defnydd blynyddol yn yr unfan o gymharu gyda 2016.
- Dros y pum mlynedd cyntaf dan sylw (2008 - 2012), dangosodd cyfradd flynyddol gyfartalog defnydd gwelyau gysondeb cymharol gyda chyfraddau yn yr ystod 42% - 44%, tra bod cyfradd cyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd wedi amrywio rhwng 58% - 59%. Mae cyfraddau wedi parhau'n gyson dros y tair blynedd ddiwethaf, gan barhau â'r tueddiad o gynydd a welwyd yn 2014, gan gynyddu gan 8 pwynt canran (defnydd gwelyau) a 9 (defnydd ystafelloedd) o gymharu gyda 2008.
- Yn y Gogledd y cofnodwyd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau (55%), a ddilynwyd gan y De Ddwyrain a'r De Orllewin (51% a 49% yn yr un drefn).
- Roedd y gyfradd uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd yn y De Ddwyrain (73%) a ddilynwyd gan gyfradd o 67% ar gyfer y Gogledd a 63% ar gyfer y De Orllewin. Cofnodwyd cyfraddau defnydd cyfartalog blynyddol is yn y Canolbarth (44% ar gyfer defnydd gwelyau a 54% ar gyfer defnydd ystafelloedd). Fel yn 2016, roedd y gwahaniaeth mwyaf mewn defnydd ystafelloedd a gwelyau yn y De Ddwyrain lle gallai defnydd ystafelloedd sengl efallai adlewyrchu defnydd busnes uwch yn yr ardal hon h.y. defnyddio gwestai Caerdydd ar gyfer busnes.

Tai Llety/Gwely a Brecwast

- Gostyngodd cyfradd defnydd blynyddol cyfartalog Tai Llety/Gwely a Brecwast o 35% yn 2016 i 33% yn 2017, gyda chyfraddau defnydd ystafelloedd yn gostwng ychydig o 39% i 38%.
- Bu cwmpas bach mewn cyfartaleddau blynyddol defnydd ystafelloedd a hefyd lleoedd gwely yn ystod 2017 gyda gostyngiad o 2 pwynt canran mewn defnydd lleoedd gwely a 1 pwynt canran mewn defnydd ystafelloedd, er bod defnydd lleoedd gwely ar ei ail bwynt uchaf ers 2008, ar 33%. Fodd bynnag dylid nodi fod maint y sampl ar gyfer tai llety/gwely a brecwast wedi gostwng dros y dwy i dair blynedd nesaf a gall hynny effeithio ar y canlyniadau tueddiad a ddangosir.
- Arhosodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd yn y Gogledd yn eu hunfan yn ystod 2017, fodd bynnag maent yn dal i fod ar eu cyfraddau uchaf ers 2009/2010 ar 39%. Cofnododd y De Orllewin eu lefelau uchaf o ddefnydd ystafelloedd mewn 10 mlynedd, gan ennill un pwynt canran gyda lefelau i fyny i 48% yn 2017. Gwelwyd gostyngiad o 3 pwynt canran yn y Canolbarth a gostyngiad o 5 pwynt canran yn y De Ddwyrain. Mae cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd Cymru gyfan yn 38%, 1 pwynt canran yn is na'r llynedd ond yn uwch na'r cyfartaledd dros y cyfnod 2011-2015.

Pob Llety a Gwasanaeth

- Roedd cyfradd flynyddol gyfartalog pob llety a gwasanaeth ledled Cymru yn 2017 yn 51%, gyda'r gyfradd flynyddol gyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd yn 67%.
- Ar ôl cyfnod o chwe mlynedd (2008 i 2013) lle cofnodwyd 38% yn gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau, gwelodd y pedair blynedd nesaf y gyfradd yn cynyddu o 40% i 50% (cynnydd o 10 pwynt canran), lefel a gynyddodd eto yn 2017, i fyny i ddefnydd gwely 51%. Dangosodd cyfradd flynyddol gyfartalog defnydd ystafelloedd hefyd lawer o gysondeb dros y cyfnod 2008 i 2012 gyda chyfradd o 52% yn cael ei chofnodi bob blwyddyn. Ers cynnwys data STR yn y categori ystafelloedd mwy yn 2014, bu defnydd cyfartalog blynyddol ystafelloedd yn gyson uwch na phob blwyddyn flaenorol, gyda lefelau ar 66% yn 2014 i 67% yn 2017.

Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar

- Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau ar gyfer bythynnod a fflatiau yn 58% yn 2017, y gyfradd uchaf yn y naw mlynedd flaenorol a chynnydd o chwe phwynt canran o gymharu â 2016. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, parhaodd llety hunanddarpar i ddangos lefelau uchel o ddefnydd yn ystod cyfnodau brig. Ym mis Awst y cofnodwyd y lefelau defnydd uchaf ar 90% gyda Thachwedd (38%) yr isaf.
- gymharu gyda phum mlynedd yn ôl, roedd llety a osodwyd yn annibynnol ar gyfer cyfartaledd blynyddol 2017 a hefyd gyfartaledd Mai - Hydref yn uwch na'r rhai yn 2012 (gan 3 a 4 pwynt canran yn yr un modd). O gymharu gyda 2016, fis ar fis roedd y cyfraddau defnydd yn 2017 yn uwch mewn naw allan o'r deuddeg mis, gyda'r gyfradd uchaf o ddefnydd eto ym mis Awst, ar 86%.
- Roedd unedau a osodwyd gan asiantaethau wedi cynyddu gan 5 pwynt canran o gymharu gyda chyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd unedau yn 2016.
- Roedd defnydd unedau hunanddarpar yn y Gogledd yn 61% yn ystod 2017, yr uchaf allan o'r pedwar rhanbarth a 3 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd blynyddol ar draws Cymru ar gyfer 2017. Roedd y De Orllewin yn gyfartal â chyfartaledd Cymru gyfan o 58% gyda defnydd unedau yn y Canolbarth 5 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd blynyddol yng Nghymru a'r De Ddwyrain yn sylweddol is (8 pwynt canran).

Cartrefi Gwyliau Carafan

- Bu gostyngiad sylweddol yn y cyfartaledd tymhorol ar gyfer cartrefi gwyliau carafan yn ystod 2017, 30 pwynt canran yn is na'r lefelau a welwyd yn 2016. Fodd bynnag, gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith na wnaeth dau ddarparwydd mawr oedd wedi cyflenwi data yn 2016 wneud hynny yn y flwyddyn gyfredol o 2017.
- Gellir gweld na chafodd y ddwy asiantaeth fawr eu cynnwys yn 2017 ar draws y misoedd unigol rhwng Mai a Hydref, ac eithrio mis Awst lle mai dim ond gan 6 pwynt canran y gostyngodd defnydd unedau o'r flwyddyn flaenorol. Ym Mai y bu'r gostyngiad mwyaf, i lawr o 89% yn 2016 i 37% yn 2017.

- Mae'r sampl yn ystod y cyfnod hwn wedi amrywio a gall fod wedi cyfrannu at y newidiadau yn y cyfraddau defnydd a ddangosir.

Parciau Carafanau Teithio a Gwersylla

- Mae amrywiadau yn y sampl wedi effeithio ar y cyfartaledd tymhorol ar gyfer parciau carafanau teithio a gwersylla; fodd bynnag mae'r gyfradd o 40% yn 2017 yn adlewyrchiad teg o'r cyfraddau defnydd a brofwyd yn ystod y tymor, sy'n welliant ar y cyfraddau defnydd a welwyd yn 2014 a 2015 ond ychydig yn is (1 pwynt canran) na lefelau 2016.
- Gostyngodd cyfartaleddau tymhorol 2017 gan 10 pwynt canran o gymharu gyda 2016, er eto y gall maint sampl llai mewn rhai misoedd effeithio ar hyn. Bu cynnydd yn y cyfartaleddau tymhorol ar gyfer lleoliadau mewndirol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, 3 pwynt canran yn uwch o 37% i 40% yn 2017.

Hostelau a Thai Bynciau

- Cynyddodd defnydd gwelyau yn y sector hostelau yn ystod 2017 ym mhob mis o gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol heblaw am fis Rhagfyr pan fu gostyngiad o 3%. O gymharu gyda chanlyniadau 2016, mae ffigurau 2017 yn dangos cynnydd misol yn amrywio o 1 i 12 pwynt canran ym misoedd Ionawr i Tachwedd gyda Mehefin yr unig fis a arhosodd yn yr unfan.
- Cynyddodd canran cyfartalog blyneddol nosweithiau gwely tramor gan 1% i uchafbwynt wyth mlynedd o 16%. Cafodd hyn ei helpu'n rhannol gan ganran neilltuol o uchel o westeion tramor yn Ionawr, bron deirgwaith canran y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd defnydd lleoedd gwely mewn pum mis o'r flwyddyn o gymharu gyda 2016 (Ionawr, Mawrth, Ebrill, Mehefin ac Awst), gyda'r lefelau'n gostwng yn Chwefror, Mai, Gorffennaf, Medi, Tachwedd a Rhagfyr. Dim ond ym mis Hydref yr arhosodd defnydd lleoedd gwely yn yr unfan (16%).

2. Cyflwyniad

Cynhaliwyd arolwg defnydd yn ddi-dor ymysg darparwyr llety gwesty gyda graddiad ers 1972 i fonitro lefelau galw am ystafelloedd a gwelyau gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb raddiad.

Newid mewn Adroddiadau Defnydd

Bu newid i ddata defnydd gwestai o Ionawr 2014 ymlaen gyda chynnwys data syndicâd ar gyfer tua chant o westai mwy (gyda 100+ ystafell) a ddarparwyd gan STR wrth gyfrif defnydd gwestai Cymru yn gyffredinol. Mae data STR yn cynnwys defnydd a refeniw ond nid math o westeion (h.y. o'r Deyrnas Unedig neu dramor, teithwyr busnes neu rai heb fod yn deithwyr busnes). Cynhwysir data ers 2014 ond nid am unrhyw flynyddoedd cyn hynny. Mae cynnwys y data yma'n gwneud yr arolwg yn llawer mwy cadarn ond gall gael peth effaith ar dueddiadau cyn 2014.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafán, parciau carafanau teithio a gwersylla. Yn 2008 cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys yn yr arolwg.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Arolwg Defnydd Llety Cymru 2017. Lle mae ar gael ac yn briodol, cyflwynir ffigurau y gellir eu cymharu o flynyddoedd blaenorol ym mhob rhan o'r adroddiad. Mae adrannau 3 i 9 yn archwilio pob un o'r sectorau llety fel sy'n dilyn.

- Adran 3: Gwestai
- Adran 4: Tai Llety / Gwely a Brecwast
- Adran 5: Pob Llety â Gwasanaeth
- Adran 6: Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar
- Adran 7: Cartrefi Gwyliau Carafán
- Adran 8: Parciau Carafanau Teithio a Gwersylla
- Adran 9: Hostelau a Thai Bynciau


3. Gwestai

Mae Adran 3 yr adroddiad yn cyflwyno data defnydd ar gyfer gwestai yn ystod 2017. Dylid nodi, fel yn 2014, 2015 a 2016, bod data gwestai 2017 yn cynnwys data gan STR ar gyfer gwestai mwy gyda 100+ ystafell.

3.1 Defnydd Blynnyddol Cyfartalog Gwelyau ac Ystafelloedd

Roedd cyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau ar gyfer 2017 yn 51% ac yn 67% ar gyfer defnydd ystafelloedd, canran bach o un pwynt canran ar gyfraddau defnydd lleoedd gwely o gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol, gyda defnydd ystafelloedd yn parhau'n debyg i'r ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cyfraddau cyfartalog defnydd blynnyddol yn y sector gwestai yn parhau ar eu lefelau uchaf yn y ddau fesur o ddefnydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Ffigur 3.1 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynnyddol (%)




Yn 2017, cynyddodd cyfraddau blynnyddol cyfartalog gan 1 pwynt canran a pharhaodd cyfradd flynyddol gyfartalog defnydd ystafelloedd yn yr unfan o gymharu gyda 2016.

Dros y pum mlynedd cyntaf dan sylw (2008 - 2012), roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd gwely yn gymharol gyson gyda chyfraddau yn yr ystod 42% - 44% tra bod cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn amrywio rhwng 58% - 59%. Mae cyfraddau wedi parhau'n sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf, gan barhau â'r tueddiad o gynnydd a welwyd yn 2014, gan gynyddu gan 8 pwynt canran (defnydd gwelyau) a 9 (defnydd ystafelloedd) o gymharu gyda 2008.

3.2 Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir cyfraddau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blyneddol a gofnodwyd yn y sector gwestai yn 2017 yn Ffigur 3.2 islaw.

Ffigur 3.2 - Gwestai - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd 2017 (%)



Roedd natur dymhorol cyfraddau gwestai yng Nghymru yn parhau'n amlwg yn 2017. Cynyddodd cyfradd cyfartalog defnydd gwelyau o 35% yn Ionawr i frig o 64% yn Awst cyn gostwng i 41% yn Rhagfyr. Dilynodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd hefyd batrwm tebyg, gan ddechrau'r flwyddyn ar 48% cyn cynyddu i 79% yng Ngorffennaf ac Awst, gan orffen y flwyddyn yn 53% yn Rhagfyr.

Tabl 3.1 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaleddau Blyneddol (%)

	Defnydd Ystafelloedd									
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	39	40	39	40	40	40	46	47	49	48
Chwefror	50	48	50	53	49	54	58	60	59	61
Mawrth	54	51	53	56	59	56	59	62	61	62
Ebrill	56	58	60	61	57	60	66	66	64	69
Mai	66	62	64	64	63	66	70	71	64	71
Mehefin	66	68	69	68	66	68	72	74	72	74
Gorffennaf	67	70	70	69	67	72	77	79	77	79
Awst	71	70	69	67	72	74	80	79	81	79
Medi	69	69	70	68	71	69	76	79	78	77
Hydref	61	63	63	61	60	62	69	72	69	69
Tachwedd	54	54	54	56	52	59	60	61	63	64
Rhagfyr	45	47	42	44	49	50	51	53	57	53
Cyf. Blyneddol	58	58	59	59	59	61	66	67	67	67


Gwelodd y cyfartaleddau misol blynyddol yn 2017 gynydd mewn cyfraddau defnydd ystafelloedd mewn saith allan o ddeuddeg mis y flwyddyn. Ym mis Mai oedd y cynnydd mwyaf mewn unrhyw un mis, gyda lefelau 7 pwynt canran yn uwch na'r cyfnod blaenorol ym Mai 2016. Dim ond pedwar allan o'r deuddeg mis brofodd ostyngiad mewn cyfraddau defnydd o gymharu gydag wyth allan o'r deuddeg mis yn 2016. Yn Rhagfyr y gwelwyd y cwymp mwyaf mewn cyfraddau defnydd gwelyau, 4 pwynt canran yn is na Rhagfyr 2016.

Gwelodd cyfraddau cyfartalog misol defnydd ystafelloedd 2017 barhad o'r lefelau uchel o ddefnydd a gofnodwyd yn y cyfnod 2008 - 2016. Yn Chwefror, Mawrth Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf a Thachwedd, roedd cyfraddau defnydd ystafelloedd ar eu lefel uchaf neu gyd lefel uchaf am dros ddeng mlynedd.

Mae tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd gwelyau ers 2008 yn Atodiad 1a.

3.3 Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Ffigur 3.3 - Gwestai - Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd a Gwelyau yn ôl Rhanbarth 2017 (%)



Yn y Gogledd (55%) y cofnodwyd cyfradd cyfartalog blynyddol uchaf defnydd gwelyau, gyda'r De Ddwyrain (51%) a'r De Orllewin (49%) yn dilyn.

Yn y De Ddwyrain (73%) yr oedd y gyfradd uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd, gyda'r Gogledd (67%) a'r De Orllewin (63%) yn dilyn. Cofnodwyd cyfraddau defnydd cyfartalog blynyddol is ar gyfer y Canolbarth (44% ar gyfer defnydd gwelyau a 54% ar gyfer defnydd ystafelloedd). Fel yn 2016, roedd y gwahaniaeth mwyaf mewn defnydd ystafelloedd a gwelyau yn y De Ddwyrain, lle gallai defnydd ystafell sengl efallai adlewyrchu defnydd busnes uwch yn yr ardal hon h.y. gwestai Caerdydd ar gyfer busnes.

Cyflwynir lefelau cyfartalog defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob rhanbarth ar sail fisol ar gyfer 2017 yn Atodiad 1b ac 1c. Oherwydd maint bach y sampl mewn rhai ardaloedd, dylid nodi nad yw'r wybodaeth yma ar gael bob amser.

3.3.1 Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Tabl 3.2 – Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarthau Cymru (%)

	Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd									
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Gogledd	57	62	61	61	62	63	66	68	68	67
Canolbarth	50	49	49	54	54	52	52	52	53	54
De										
Ddwyrain	66	62	62	61	61	66	71	73	72	73
De										
Orllewin	56	53	54	51	50	50	64	64	60	63
CYFANSWM CYMRU	58	58	59	59	59	61	66	67	67	67

Dros gyfnod o ddeng mlynedd 2008-2017 mae defnydd cyfartalog blynyddol ystafelloedd wedi cynyddu ym mhob rhanbarth. Gwelodd y Gogledd, y De Ddwyrain a'r De Orllewin i gyd gynydd sylweddol mewn lefelau defnydd ystafelloedd (10, 7 a 7 pwynt canran yn yr un drefn). Yn y Canolbarth, roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn 54%, 4 pwynt canran yn uwch nag yn 2008.

Yn ystod 2017, y De Orllewin gofnododd y cynnydd mwyaf mewn defnydd ystafelloedd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfraddau defnydd ystafelloedd 3 pwynt canran yn uwch o gymharu â 2016. Cofnododd y Canolbarth a'r De Orllewin gynydd o un pwynt canran, gyda'r Gogledd yn gostwng gan un pwynt canran yn ystod 2017.


3.4 Canran Ymwelwyr Tramor

Cafodd y ffurflenni a ddefnyddiwyd i gasglu data defnydd eu diweddarau yn 2008 i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau'n effeithio ar y ffordd y cesglir gwybodaeth ar westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y gwesteion newydd oedd yn cyrraedd bob dydd (o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor) gyda'r canran o westeion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y gwesteion newydd yn cyrraedd. Ni chafodd yr wybodaeth yma ar westeion yn cyrraedd ei chasglu ers 2007 a chafodd y gyfran o arosiadau tramor ers 2008 eu cyflwyno fel canran o nosweithiau tramor (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Mae'n bwysig dweud mai mater o ychydig o leoedd degol yw'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol ddulliau o gasglu data tramor. Er enghraifft, roedd canran blynyddol 2007 yn 4.0% yn defnyddio'r hen dull a 4.1% yn defnyddio'r dull newydd. Oherwydd y newidiadau hyn, ac i sicrhau cysondeb y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu gan ddefnyddio'r un dull, cafodd faint o wybodaeth tueddiad a gyflwynir am westeion tramor ei ostwng a bydd y ffocws yn yr adroddiad yma ar ganlyniadau diweddaraf 2009 i 2017.

Dylid nodi hefyd na roddodd pawb a gymerodd ran y data hwn.

Ffigur 3.4 – Gwestai - Canran Nosweithiau Gwely Tramor 2017 (%)



Gwelodd y canran o nosweithiau gwely tramor lefelau amrywiol o ddefnydd ar draws y flwyddyn gyfan, gyda phrif ffactor defnydd tramor yn is na blynyddoedd blaenorol. Parhaodd cyfradd defnydd nosweithiau gwely tramor i fod ar ei uchaf yn ystod misoedd yr haf, gyda chofnodi ffigur o 5% ym Mai ac Awst er bod defnydd tramor yn is na data 2016 ym Mehefin a Gorffennaf..

3.4.1 Tueddiadau yn y Canran o Nosweithiau Gwely Tramor


Cyfradd gyfartalog flynyddol nosweithiau gwely tramor ar gyfer 2017 oedd 3%, yr isaf am dros 7 mlynedd. Gellid ystyried bod nifer o ffactorau'n cyfrannu yma, gydag ymwelwyr tramor yn ymwybodol o'r ansicrwydd am economi'r Deyrnas Unedig ar ôl y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd ac ymosodiadau terfysgol ar draws y Deyrnas Unedig. Yn ystod Chwefror a Mawrth 2017 gall tywydd ansefydlog yn sgil storm Doris fod wedi effeithio ar gynlluniau teithio, yn arbennig yng Ngogledd Cymru.

Tabl 3.3 – Gwestai - Tueddiadau yn y Canran o Nosweithiau Gwely Tramor

% Nosweithiau Gwely Tramor								
	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	4	6	5	3	2	2	3	1
Chwefror	4	4	2	3	2	2	7	1
Mawrth	5	5	4	3	2	2	6	3
Ebrill	4	4	4	5	3	2	5	4
Mai	5	6	5	6	6	6	6	5
Mehefin	6	6	3	7	6	5	5	4
Gorffennaf	6	7	6	9	6	7	7	4
Awst	4	5	7	7	6	5	7	5
Medi	6	5	5	7	4	4	5	3
Hydref	6	4	4	5	5	4	5	2
Tachwedd	5	4	2	2	2	3	2	1
Rhagfyr	3	3	3	6	2	3	1	3
Cyfartaledd Blynyddol	5	5	4	6	4	4	5	3

Mae cyfraddau defnydd nosweithiau gwely tramor wedi parhau i fod yn fwy amrywiol na chyfraddau blynyddol pan y'u dadansoddir ar sail fisol; fodd bynnag, o gofio am y cyfrannau cymharol fach a gofnodwyd, ni fu'r rhain yn amrywiadau neilltuol o fawr. Gostyngodd ffigurau ar gyfer 2017 mewn 11 o'r deuddeg mis gyda dim ond Rhagfyr yn cofnodi cynnydd mewn cyfraddau defnydd.

Ffigur 3.5 - Gwestai - Canran Gwestai Tramor yn ôl Rhanbarth 2011 – 2017 (%)




Roedd cyfradd flynyddol uchaf defnydd gwesteion tramor yn 2017 yn y De Orllewin (7%) gyda'r Canolbarth yn sicrhau cyfradd o 5% a'r De Ddwyrain gyfradd o 4% yn ystod 2017. Yn y Gogledd y cofnodwyd y ffigur isaf (2%).

3.5 Canran Gwesteion Busnes

Ar y ffurflen defnydd misol, gofynnwyd i weithredwyr ddynodi nifer y gwesteion sy'n aros yn y gwesty bob nos ar gyfer dibenion busnes. Dylid nodi, er y bu meintiau'r sampl ar gyfer y rhai sy'n rhoi data busnes yn weddol gyson dros y cyfnod 2012 - 2017, nid yw pob sefydliad yn rhoi data ar ddefnydd busnes.

Dangosir y data misol ar gyfer 2017 yn Ffigur 3.6 trosodd.

Ffigur 3.6 – Gwestai - Canran Gwesteion Busnes 2017 (%)



Mae defnydd busnes wedi parhau i ddangos patrwm croes i'r hyn a gofnodwyd ar gyfer cyfraddau defnydd cyffredinol, gyda'r cyfraddau busnes uchaf y tu allan i brif dymor yr haf, er bod cyfraddau defnydd busnes yn is yn gyffredinol. Cofnodwyd cyfraddau cyfartalog uchaf defnydd busnes 2017 ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, gyda chyfraddau o 9% ym Mawrth a 8% yn Nhachwedd. Fodd bynnag, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, roedd cyfanswm defnydd yn sylweddol is.

Tabl 3.4 – Gwestai - Tueddiadau yn y Canran o Westeion Busnes


	% Gwesteion Busnes									
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	38	31	22	29	27	17	22	13	18	8
Chwefror	26	26	19	21	17	16	23	11	21	8
Mawrth	19	24	20	19	11	11	17	13	16	9
Ebrill	24	17	13	9	7	7	17	9	15	5
Mai	16	16	15	15	9	7	12	8	12	5
Mehefin	19	20	14	12	7	7	10	11	14	6
Gorffennaf	18	17	13	11	7	7	8	12	5	4
Awst	11	11	9	9	6	6	5	6	5	5
Medi	18	14	12	10	6	11	11	10	7	6
Hydref	21	18	15	13	8	9	15	10	9	6
Tachwedd	28	19	24	21	11	20	14	18	10	8
Rhagfyr	21	17	20	14	12	22	16	11	4	3
Cyf. Blynnyddol	20	18	15	14	9	10	13	11	11	6

Dangosodd cyfradd cyfartalog blynnyddol defnydd busnes 2017 o 6% ostyngiad o 5 pwynt canran o gymharu gyda ffigur 2016. Er yn sylweddol is, roedd y ffigurau uchaf ar gyfer defnydd busnes ym Mawrth (9%). Yn 2017, roedd cyfartaledd blynnyddol canran gwesteion busnes ar ei isaf am y 10 mlynedd diwethaf. Gallai'r cynnydd mewn teithwyr busnes yn defnyddio llety arall fel AirBnB fod yn un o'r ffactorau yn y dirywiad mewn gwesteion busnes.

3.6 Defnydd yn ôl Maint Gwesty

Cyflwynir y ffigurau cyfartalog blynnyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint gwesty ar gyfer 2017 yn Ffigur 3.7 islaw. Oherwydd maint bach y sampl, ni chyflwynir dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda 1-3 ystafell. Rhoddir manylion lefelau defnydd misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau maint a ddefnyddir yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad yma.

Ffigur 3.7 – Gwestai - Defnydd Blynyddol yn ôl Maint Gwesty - 2017 (%)



Roedd amrywiadau yn ôl maint gwesty yn fwy amlwg ar gyfer defnydd cyfartalog blynyddol ystafelloedd nag ar gyfer defnydd gwelyau yn 2017, gyda'r cyfraddau ar gyfer y tri band maint lleiaf yn 50, 57 a 62 tra bod gan y ddau fand maint mwyaf gyfraddau o 71% a 79% - mae'n debygol fod sefydliadau mwy wedi denu cyfran uwch o ddefnyddwyr busnes ac os felly mae ystafelloedd yn fwy tebygol o fod wedi eu defnyddio gan un gwestai.

Roedd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar ei uchaf ar gyfer y sefydliadau mwyaf (25 pwynt canran) - dangosodd y categorïau maint arall wahaniaeth o rhwng 8 a 16 pwynt canran.

Tabl 3.5 – Gwestai - Tueddiadau Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Maint Gwesty

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd (%)										
Nifer ystafelloedd	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
4-10	40	40	45	52	49	52	58	56	50	50
11-25	53	55	53	54	51	52	57	59	57	57
26-50	62	58	57	56	62	59	61	63	59	62
51-100	66	63	66	65	65	65	68	70	72	71
101+	67	69	68	63	64	71	75	77	77	79


O gymharu gyda 2016, roedd llai o symud yng nghyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd mewn gwestai llai (4-10 a 11-15) yn 2017 nag a welwyd yn 2016. Ac eithrio categori 51-100 ystafell (lle roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd wedi gostwng gan 1 pwynt canran), roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer y categori 26-50 ystafell wedi cynyddu gan 3 pwynt canran ac ar gyfer 101+ ystafell wedi cynyddu gan 2 pwynt canran. Ers 2008, bu'r cynnydd mwyaf o 5 a 12 pwynt canran yn y ddau fand maint mwyaf.

3.7 Defnydd yn ôl Tariff

Mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godir fesul person am ystafell dwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion lefelau misol defnydd gwelyau ar gyfer pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddir yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adran hon o'r adroddiad.

Mae ffigur 3.8 islaw'n dangos ffigurau blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2017. Nid oes unrhyw ffigurau ar gyfer gwestai gyda thariff o lai na £20 gan na wnaeth unrhyw sefydliadau yn y band tariff hwn ddarparu data yn 2017.

Ffigur 3.8 – Gwestai - Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Gwesty – 2017 (%)



Yn 2017 roedd0 cydberthynas gyffredinol rhwng cyfraddau defnydd a thariff gyda'r cyfraddau cyfartalog blynyddol uchaf (65% ystafelloedd a 53% gwelyau) yn cael eu cofnodi ar gyfer gwestai'n codi £60 neu fwy. Yn 2017 y band tariff £40-£49.99 gofnododd y defnydd ystafelloedd uchaf o 72%.

Tabl 3.6 - Gwestai - Tueddiadau Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Gwesty (%)


Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd										
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
£30-£39.99	45	43	45	46	49	49	48	49	43	41
£40-£49.99	51	51	55	59	58	57	59	64	72	72
£50-£59.99	59	54	59	60	57	56	62	61	59	62
£60+	64	63	61	60	61	64	68	70	69	69

Mae cyfradd gyfartalog flynyddol ystafelloedd ar gyfer y rhai yn y band tariff isaf wedi parhau'n gymharol gyson dros y cyfnod dan sylw, er mai'r ffigurau ar gyfer 2017 oedd y rhai isaf a gofnodwyd (41%).

3.8 Defnydd yn ôl Lleoliad

Cafodd cyfraddau defnydd eu dadansoddi yn ôl lleoliad y gwesty - mewn dinas/tref fawr, mewn tref fach, ar lan y môr neu mewn ardal wledig/pentref. Rhoddir manylion lefelau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau lleoliad yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad hwn.

Ffigur 3.9 – Gwestau - Defnydd Blynyddol yn ôl Lleoliad Gwesty – 2017 (%)



Sefydliadau mewn ardaloedd glan môr gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau (51%) gydag ardaloedd gwledig/pentref yn dilyn (48%). Roedd y gyfradd isaf mewn trefi bach a lleoliadau dinas/trefi mawr, lle'r oedd y defnydd blynyddol ar gyfer y ddwy ardal yn 46% a 47% yn yr un drefn.

Sefydliadau mewn dinasoedd/trefi mawr gofnododd y gyfradd cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd yn 2017 gyda 68%, o gymharu gyda 61% mewn trefi bach, 60% ar lan y môr a 59% mewn lleoliadau gwledig/pentref. Roedd sefydliadau mewn dinasoedd/trefi mawr yn fwy tebygol o ddenu gwesteion busnes ac, yn eu tro, i gael cyfran uwch o ystafelloedd yn cael eu defnyddio gan un gwestai gan arwain at fwy o wahaniaeth rhwng cyfraddau defnydd ystafelloedd a gwelyau.

Tabl 3.7 – Gwestai - Tueddiadau Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Gwesty (%)

	Defnydd Blynyddol Ystafelloedd									
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Dinas/tref fawr	71	69	66	62	64	69	65	69	68	68
Tref fach	53	55	61	59	61	60	56	60	58	61
Glan môr	60	58	59	60	59	60	63	64	59	60
Gwledig/pentref	53	52	53	55	53	52	58	59	60	59

Rhwng 2012 a 2017, cofnododd sefydliadau mewn dinasoedd/trefi mawr gynnydd o bedwar pwynt canran yn eu cyfradd gyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd, a gododd o 64% i 68%. Mae trefi bach wedi parhau'n weddol gyson, gyda chyfraddau defnydd ar 61% yn 2012, wedyn yn gostwng i 56% yn 2014, fodd bynnag mae cyfraddau 2017 yn ôl yn debyg i 2012 ar 61%. Er bod gwestai mewn lleoliadau gwledig/pentref wedi codi'n gyson dros y 5 mlynedd ddiwethaf, ers 2012


mae lleoliadau glan môr wedi cynyddu gan un pwynt canran, gyda gostyngiad o bedwar pwynt canran ers yr uchafbwynt o 64% yn 2015.

3.9 Defnydd yn ôl Graddiad

Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd ar gyfer gwestai eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru. Ni chyflwynir unrhyw ddadansoddiad ar gyfer gwestai graddiad 1 seren gan nad oedd unrhyw westai gyda'r graddiad hwn yn y sampl yn 2017.

Rhoddir lefelau misol defnydd ystafelloedd a gwelyau ar gyfer pob un o'r categorïau graddio yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad hwn. Dylid nodi fod y sampl o westai 2 seren yn weddol isel a dylid ei weld fel arwyddol yn hytrach nag ystadegol gadarn.

Ffigur 3.10 – Gwestai - Defnydd Blynnyddol yn ôl Graddiad Gwesty – 2017 (%)



Fel mewn blynnyddoedd blaenorol, cofnododd gwestai heb raddiad o fewn cynllun graddiad Croeso Cymru ffigurau cyfartalog blynnyddol sylweddol is ar gyfer cyfraddau defnydd gwelyau a hefyd ddefnydd ystafelloedd yn 2017 na sefydliadau gyda graddiad. Cofnodwyd cyfraddau cyfartalog blynnyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd gan sefydliadau gyda graddiad 2-seren (69% a 85%). Roedd gwestai 3 a 4 seren yn gyfartal â'i gilydd gan gyflawni cyfraddau defnydd ystafelloedd a lleoedd gwely tebyg (63% ystafell - a 48% a 51% lleoedd gwely - yn yr un drefn). Roedd cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd gwestai 5-seren hefyd yn 60% a 66%.

Tabl 3.8 – Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynnyddol Defnydd Ystafelloedd (%) yn ôl Graddiad Gwesty (%)

	Defnydd Blynnyddol Ystafelloedd									
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Heb raddiad	51	46	53	54	53	62	48	42	41	40
2 seren	61	59	59	64	64	65	84	84	78	85
3 seren	61	58	58	57	59	59	60	63	63	63
4 seren	57	64	64	60	60	58	65	64	61	63
5 seren	62	68	67	73	77	74	65	67	70	66

Dros y cyfnod 2008 - 2017, y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd sefydliadau gyda graddiad 3 seren ddangosodd y cysondeb mwyaf gyda'r graddiad hwn yn yr ystod 57-63% dros y cyfnod yma. Cyrhaeddodd cyfraddau gwestai gyda 5 seren uchafbwynt o 77% yn 2012, fodd bynnag gostyngodd cyfraddau i 66% 5 mlynedd yn ddiweddarach. Bu cryn dipyn o amrywiad yng nghyfraddau blynyddol defnydd ystafelloedd gwestai 2-seren gan gofnodi cynnydd o 24 pwynt canran ar eu cyfraddau 2008. Mae gwestai 4-seren wedi parhau'n weddol gyson gyda'r gyfradd isaf yn 2008 (57%) dim ond 6% dan lefelau 2017.

Mae cyfraddau sefydliadau heb raddiad wedi parhau i amrywio dros y blynyddoedd. Cyflawnwyd eu lefel uchaf yn 2013 ar 62%. Mae hyn wedi gostwng yn sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf, 22 pwynt canran yn is i 40% yn 2017.


4. Tai Llety/Gwely a Brecwast

Mae'r adran hon yn cyflwyno lefelau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast.

4.1 Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Gostyngodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast o 35% yn 2016 i 33% yn 2017, gyda chyfraddau defnydd ystafelloedd yn gostwng ychydig o 39% i 38%.

Ffigur 4.1 Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)




Gostyngodd defnydd cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd a gwelyau ychydig yn ystod 2017 gyda gostyngiad o 2 pwynt canran mewn defnydd lleoedd gwely ac 1 pwynt canran mewn defnydd ystafelloedd, er bod defnydd lleoedd gwely ar ei ail bwynt uchaf ers 2008, ar 33%. Fodd bynnag, dylid nodi fod maint y sampl ar gyfer tai llety/gwely a brecwast wedi gostwng dros y dwy i dair blynedd ddiwethaf a gall hyn effeithio ar y canlyniadau tueddiad a ddangosir.

4.2 Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir cyfraddau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd 2017 ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol ar gyfer y sector tai llety a gwely a brecwast yn 2017 yn Ffigur 4.2 islaw.

Ffigur 4.2 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2017 (%)



Mae natur dymhorol y sector Tai Llety/Gwely a Brecwast yng Nghymru yn parhau'n amlwg yn 2017. Roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau ar ei isaf yn Rhagfyr (13%), yn codi i uchafbwynt o 50% ym misoedd Gorffennaf ac Awst. Fe wnaeth cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd hefyd ddilyn patrwm tebyg, ar ei bwynt isaf yn Rhagfyr (16%), gan godi i 57% yn ystod Awst.

Tabl 4.1 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaleddau Misol (%)

	Defnydd ystafelloedd									
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	18	17	15	13	14	12	14	16	20	19
Chwefror	26	25	24	19	19	21	18	18	22	25
Mawrth	30	27	27	24	28	26	23	27	31	26
Ebrill	34	38	38	39	36	30	32	34	36	41
Mai	46	45	42	41	42	44	41	43	46	41
Mehefin	45	48	50	49	48	44	43	50	48	49
Gorffennaf	54	54	53	50	49	55	51	61	59	55
Awst	59	59	57	59	53	57	57	59	63	57
Medi	47	51	50	45	48	45	46	47	50	47
Hydref	38	39	39	29	32	30	30	37	37	34
Tachwedd	27	25	25	25	19	20	22	22	25	22
Rhagfyr	19	21	21	18	13	13	19	20	23	16
Cyf. Blyn.	40	37	38	37	34	34	35	37	39	38


Cofnodwyd gostyngiadau mewn defnydd ystafelloedd ar gyfer tri o'r deuddeg mis yn 2017 o gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol, ac eithrio Chwefror ac Ebrill lle roedd cyfraddau defnydd wedi codi gan dri a phum pwynt canran yn yr un drefn ac ym Mehefin lle'r oedd wedi cynyddu gan un pwynt canran o gymharu â lefelau 2016. Cofnodwyd y gostyngiad mwyaf mewn defnydd ystafelloedd yn Rhagfyr, lle'r oedd lefelau defnydd 7 pwynt canran yn is na data 2016. Fodd bynnag, roedd cyfradd cyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn 2017 yn fras debyg i ganlyniadau blynyddoedd blaenorol.

Cyflwynir tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd ystafelloedd yn Atodiad 2a.

4.3 Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 4.3 islaw'n cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast ar gyfer pob rhanbarth o Gymru yn 2017. Cyflwynir cyfraddau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob ardal yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad hwn.

Ffigur 4.3 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Cyfartaledd Blynyddol (%) yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2017



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar eu huchaf yn y De Orllewin lle cofnodwyd cyfartaledd o 43% a 48% yn yr un drefn ar gyfer sefydliadau. Ar y llaw arall yn y Canolbarth yr oedd cyfradd flynyddol gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer defnydd gwelyau o 22% a defnydd ystafelloedd o 26%.

Tabl 4.2 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarthau Cymru (%)


	Defnydd ystafelloedd									
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Gogledd	35	39	39	35	31	35	35	35	40	40
Canolbarth	29	33	32	34	32	32	27	32	29	26
De Ddwyrain	43	40	38	25	31	28	32	42	40	35
De Orllewin	43	39	39	37	40	43	40	43	47	48
Cymru gyfan	37	38	37	34	34	35	33	37	39	38

Arhosodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd yn y Gogledd yn eu hunfan yn ystod 2017, fodd bynnag maent yn dal i fod ar eu cyfraddau uchaf ers y 39% a gafwyd yn 2009/10. Cofnododd y De Orllewin eu lefelau uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd mewn 10 mlynedd, gan ennill un pwynt canran gyda lefelau i fyny i 48% yn 2017. Gwelodd y Canolbarth a'r De Ddwyrain

ostyngiad o 3 a 5 pwynt canran yn yr un drefn. Mae cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd Cymru yn 38%, 1 pwynt canran yn is na'r llynedd ond yn uwch na'r cyfartaledd dros y cyfnod 2011-2015.

4.4 Canran Gwesteion Tramor

Ffigur 4.4 - Tai Llety/Gwely a Brecwst - Canran Nosweithiau Gwely Tramor - 2017 (%)



Fel y manylir yn adran 3.4, bu newid yn 2008 yn y ffordd y caiff data ar gyfer gwesteion tramor ei gasglu, gyda'r ffurflenni'n cael eu diweddarau i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Mewn blynyddoedd blaenorol gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y cyraeddiadau newydd ar gyfer pob diwrnod (ar gyfer y Deyrnas Unedig a thramor) a chyflwynwyd y canran o westeion tramor yn seiliedig ar gyfer cyfanswm y cyraeddiadau. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chasglu erbyn hyn, felly fel canlyniad caiff y canran o arosiadau tramor ei gyflwyno fel canran o nosweithiau gwely tramor (seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Oherwydd y newidiadau hyn ac i sicrhau cysondeb y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu yn defnyddio'r un fethodoleg, gostyngwyd faint o wybodaeth tueddiad a roddir ar gyfer gwesteion tramor ac mae ffocws yr adroddiad hwn ar ganlyniadau diweddaraf 2009 i 2016.


Cynyddodd cyfanswm defnydd nosweithiau gwely tramor mewn naw o'r deuddeg mis, gan aros yn sefydlog yn nhri mis arall y flwyddyn. Gwelwyd y cyfraddau isaf yn Rhagfyr (4%), Ionawr a Mawrth (y ddau yn 6%).

Tabl 4.3 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau Canran Nosweithiau Gwely Tramor

	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	10	5	11	5	6	8	4	6
Chwefror	7	7	12	9	8	11	10	14
Mawrth	7	5	9	10	5	6	3	6
Ebrill	10	10	10	13	9	8	10	13
Mai	12	11	12	12	13	13	13	14
Mehefin	11	12	13	14	16	15	13	15
Gorffennaf	15	16	17	17	17	17	18	18
Awst	12	12	13	14	15	15	16	22
Medi	12	10	11	13	12	12	10	14
Hydref	10	9	6	10	5	8	12	12
Tachwedd	11	7	6	9	7	7	9	10
Rhagfyr	16	3	6	10	19	8	4	4
Cyf. blynyddol	12	11	11	13	11	12	12	15

Dros yr wyth mlynedd ddiwethaf mae canran nosweithiau gwely tramor wedi parhau'n gyson uchel yn neilltuol yn ystod misoedd yr haf rhwng Mai a Medi. Roedd y cynnydd mwyaf yn Awst, gyda lefelau 6 pwynt canran yn uwch o gymharu â 2016. Mae defnydd nosweithiau gwely tramor wedi cynyddu ym mhob mis, heblaw am Gorffennaf, Hydref a Rhagfyr a arhosodd ar lefel 2016.

Ffigur 4.5 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Canran Ymwelwyr Tramor yn ôl Rhanbarth 2011 –2017 (%)



Cymharol ychydig o amrywiad a gofnodwyd yn y Gogledd a'r Canolbarth ar gyfer y canran o ymwelwyr tramor yn ystod 2017, er i'r Canolbarth weld cynnydd o 1 pwynt canran, i fyny o 10% yn 2016 i 11% yn 2017. Cofnododd y De Ddwyrain a'r De Orllewin gynnydd sylweddol mewn gwsteion tramor yn ystod 2017 gyda defnydd y De Ddwyrain ar 22%, cynnydd o 9 pwynt canran o gymharu â'r llynedd ac yn agos at y lefelau uchaf a gofnodwyd o 24% yn 2013. Fodd bynnag, dylid nodi fod maint y sampl ar gyfer y De Ddwyrain yn weddol isel a bod angen gofal wrth drin y canlyniadau. Cofnododd y De Orllewin gynnydd 4 pwynt canran ar 2016 a'u lefelau uchaf am 7 mlynedd.

4.5 Canran Gwesteion Busnes

Gofynnwyd i weithredwyr tai llety a gwely a brecwast i gofnodi nifer y gwsteion yn aros ar gyfer dibenion busnes. Dylid nodi na chafwyd yr wybodaeth hon gan bawb oedd yn cymryd rhan.

Tabl 4.4 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Canran Gwesteion Busnes – 2013 - 2017 (%)


Canran Gwesteion Busnes					
	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	58	47	40	24	33
Chwefror	30	40	18	22	21
Mawrth	24	18	22	13	22
Ebrill	20	10	11	15	6
Mai	10	6	9	7	9
Mehefin	12	7	8	8	5
Gorffennaf	7	12	7	5	5
Awst	6	8	8	5	4
Medi	12	12	6	7	9
Hydref	21	16	5	8	12
Tachwedd	38	20	20	24	22
Rhagfyr	28	37	17	15	18
Cyf. blynyddol	15	14	11	12	14

Mae'r cyfartaledd blynyddol ar gyfer defnydd busnes yn y sector Tai Llety/Gwely a Brecwast yng Nghymru wedi parhau'n weddol gyson dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn wahanol i'r sector gwestai a welodd ostyngiad cyson yn nifer y gwesteion busnes, yn sicr yn y 3 blynedd ddiwethaf gallwn weld patrwm cyson o nifer westeion busnes yn defnyddio tai llety a gwely a brecwast. Fodd bynnag fel y dangosir yn Nhabl 4.4 (uchod), mae'r cysondeb cyffredinol yn cuddio rhai amrywiadau hyd yn oed fwy pan y'u dadansoddir ar sail fisol.

Roedd cyfradd cyfartalog defnydd busnes ar gyfer 2017 yn uwch nag yn 2016, ac yn debycach i ganlyniadau 2013 a 2014. Chwe mis o'r flwyddyn ddangosodd gynnydd ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol oedd: Ionawr a Mawrth lle bu cynnydd iach o 9%, Mai a Medi a gynyddodd ill dau gan 2 bwynt canran a Hydref a Rhagfyr a gynyddodd gan 4 a 3 pwynt canran yn yr un drefn. Yng ngweddill misoedd 2017, roedd y cyfraddau busnes a gofnodwyd un ai yn yr unfan neu ychydig yn is, ac eithrio Ebrill a ostyngodd gan 9 pwynt canran o gymharu â lefelau 2016. Fodd bynnag, gall cyfnod y Pasg oedd ym mis Ebrill yn 2017 yn rhwydd fod wedi effeithio ar y gostyngiad hwn yn nifer ymwelwyr busnes o gymharu â 2016 pan oedd y Pasg ar ddiwedd mis Mawrth.

Mae Ffigur 4.6 yn dangos y canran o westeion busnes ar gyfer y rhanbarthau unigol rhwng 2013 - 2017. Eto, dylid nodi na chafwyd yr wybodaeth yma gan bawb a gymerodd ran ac felly mae'r canlyniadau yn fwy amrywiol na chyfraddau defnydd yn gyffredinol.

Ffigur 4.6 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Canran Cyfartalog Blynyddol Gwesteion Busnes yn ôl Rhanbarth 2013 – 2017 (%)




Mae canrannau cyfartalog blynyddol gwestion busnes ar draws pob rhanbarth wedi amrywio dros y pum mlynedd ddiwethaf gyda'r tueddiadau'n gyffredinol yn dangos gostyngiad yn y canran o westeion busnes ar draws pob rhanbarth. Mae rhanbarthau yn y Deheubarth wedi dangos mwy o amrywiad dros y cyfnod. Wrth gymharu ffigurau 2017 gyda rhai 2016, dim ond y Canolbarth sydd wedi dangos cynnydd mewn gwesteion busnes yn ystod y cyfnod, 8 pwynt canran yn uwch na chanlyniadau 2016. Mae gostyngiad o 6 pwynt canran yn y De Ddwyrain ac 1 pwynt canran yn y De Orllewin yn dangos bod y De'n is na data y llynedd ond mae lefelau yn y De Orllewin yn gyson gyda ffigurau'r pum mlynedd flaenorol. Arhosodd cyfradd y Gogledd yn yr unfan.

4.6 Defnydd yn ôl Maint

Gan fod maint y samplau yn y categorïau maint mwy yn fach, dim ond ar gyfer dau gategori o Dai Llety/Gwely a Brecwast - 1-3 ystafell a 4-10 ystafell y cyflwynir cyfraddau defnydd. Cyflwynir ffigurau cyfartalog misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint Tai Llety/Gwely a Brecwast yn Atodiad 2b a 2c.

Ffigur 4.7 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd Blynnyddol yn ôl Maint - 2017 (%)



Fel y dangosir yn Ffigur 4.7, roedd cyfraddau cyfartalog blynnyddol defnydd ystafelloedd 12 pwynt canran yn uwch yn y sefydliadau gyda 4-10 ystafell (40%) nag yn y categori llai 1-3 ystafell (28%). Roedd hefyd wahaniaeth amlwg yn y defnydd gwelyau gyda sefydliadau maint 4-10 ystafell yn 34% o gymharu gyda 27% mewn sefydliadau 1-3 ystafell.

Tabl 4.5 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynnyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Maint Tŷ Llety/Gwely a Brecwast


Defnydd Cyfartalog Blynnyddol Ystafelloedd											
	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
1-3 ystafell	33	31	30	32	27	29	33	32	32	32	28
4-10 ystafell	47	40	43	40	37	36	36	34	40	42	40

Gostyngodd y categori mwy 4-10 ystafell gan 2 pwynt canran o gymharu gyda'r cyfartaledd blynnyddol yn 2016, ond mae'n dal yn uwch pan gaiff ei gymharu ar sail pum mlynedd. Mae'r ffigur ar gyfer y categori 1-3 ystafell wedi parhau'n weddol gyson dros y 5 mlynedd ddiwethaf, fodd bynnag mae canlyniadau 2017 yn dangos lefelau ar eu hisaf ers 2011. Wrth edrych ar y cyfnod dan sylw, mae'r ddau gategori maint wedi dangos gostyngiad o gymharu gyda'r ffigurau a ddangosir yn 2007 (5 pwynt canran ar gyfer rhai gyda 1-3 ystafell a 7 pwynt canran ar gyfer y categori maint mwy).

4.7 Defnydd yn ôl Tariff


Fel gyda'r arolwg gwestai, mae'r ffigurau tariff a ddefnyddir yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godir fesul person am ystafell ddwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion lefelau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau tariff yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad. Oherwydd maint y sampl, dylid nodi mai dim ond ar gyfer sefydliadau hynny gyda thariff o fwy na £20 y rhoddir canlyniadau.

Ffigur 4.8 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd Blyneddol yn ôl Tariff Tŷ Llety/Gwely a Brecwast - 2017 (%)



Mae cyfraddau cyfartalog blyneddol defnydd a ddangosir yn Ffigur 4.8 yn dangos cydberthynas cyffredinol rhwng tariff a chyfraddau defnydd. Cofnododd sefydliadau'n codi £20-£29.99 gyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau o 10% a chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd o 16% yn 2017, sy'n cymharu gyda chyfraddau o 33% (defnydd gwelyau) a 38% (defnydd ystafelloedd) ar gyfer y rhai'n codi £50-£59.99. Roedd y cyfraddau ar gyfer y band tariff £40-£49.00 yn 2017 yn debyg i'r band tariff mwyaf, gyda lefelau is o ddefnydd ystafelloedd ond gyda defnydd gwelyau uwch. Cofnodwyd y defnydd uchaf ar gyfer ystafelloedd a gwelyau yn y band tariff uchaf o £60 a throsodd.

Ffigur 4.9 Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blyneddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Gwely a Brecwast



Tabl 4.6 Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Gwely a Brecwast (%).

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Gwely a Brecwast										
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
£20-£29.99	32	30	28	24	28	22	15	32	24	16
£30-£39.99	38	37	37	35	35	34	33	35	38	32
£40-£49.99	49	45	38	35	35	34	32	34	40	40
£50-£59.99	*	*	54	34	*	40	39	40	44	38
£60 a throsodd	-	59	53	34	33	44	42	51	42	44


* maint y sampl yn rhy fach i gyflwyno data
- data dim ar gael ar gyfer 2008

Mae cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd wedi dangos gostyngiad cyffredinol ers 2008 ar gyfer pob un o'r bandiau tariff, heblaw am y categori £40-£49.99 a fu'n sefydlog ers 2010. Dylid nodi nad yw meintiau sampl ar gyfer sefydliadau'n codi £50-£59.99 bob amser wedi bod yn ddigon mawr i alluogi cyflwyno'r dadansoddiad hwn. Roedd cyfraddau defnydd ystafelloedd wedi gostwng gan 6 pwynt canran ar gyfer y bandiau tariff £30-39.99 a £50-£59.99 o gymharu gyda 2016, gyda'r band tariff lleiaf yn gweld gostyngiad o 8 pwynt canran mewn defnydd ystafelloedd. Fodd bynnag, roedd y band tariff mwyaf o £60 a throsodd wedi gweld cynnydd bach o 2 pwynt canran o gymharu gyda 2016 ond heb gyrraedd y lefelau uchel a welwyd yn 2009 pan oedd lefelau cyfartalog defnydd ystafelloedd ar uchfafbwynt o 59%.

4.8 Defnydd yn ôl Lleoliad

Cafodd cyfraddau defnydd eu dadansoddi yn ôl lleoliad y Tŷ Llety/Gwely a Brecwast - mewn dinas/tref fawr, mewn tref fach, ar lan y môr neu mewn lleoliad gwledig/pentref. Cyflwynir y lefelau defnydd misol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob math o leoliad yn Atodiad 2b a 2c.

Ffigur 4.10 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd Blynyddol yn ôl Lleoliad – 2017 (%)



Cofnodwyd cyfradd gyfartalog flynyddol uchaf defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2016 ar gyfer sefydliadau mewn lleoliadau tref fawr/dinas (47% a 55% yn yr un drefn). Cofnododd sefydliadau mewn trefi bach gyfartaledd blynyddol defnydd gwelyau o 39% gyda 52% ar gyfer defnydd ystafelloedd tra bod y cyfraddau defnydd mewn lleoliadau glan môr a gwledig/pentref yn gymharol is.

Tabl 4.7 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Blyneddol Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Tŷ Llety/Gwely a Brecwast (%)

Defnydd Cyfartalog Blyneddol Ystafelloedd										
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Dinas/Tref fawr	57	54	42	*	45	*	50	50	50	55
Tref fach	38	40	37	44	43	41	42	53	55	52
Glan môr	44	42	46	42	36	40	37	38	42	28
Gwledig/ Pentref	33	33	34	30	31	32	30	34	37	37

* maint sampl yn rhy fach i gyflwyno data


Dim ond mewn lleoliadau tref fawr/dinas y bu cynnydd mewn defnydd ystafelloedd yn ystod 2017; gwelodd lleoliadau tref fach a glan môr gwymp o rhwng 3 a 14 pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ers y llynedd gyda gwledig/pentref yn aros yn yr unfan. Fodd bynnag dros y cyfnod o ddeng mlynedd, gwelodd trefi bach gynnydd o 12 pwynt canran yn y cyfnod gyda 2017 y ffigur defnydd ystafelloedd trydydd uchaf ar gyfer y math hwn o leoliad ar gyfer y cyfnod dan sylw. Mae defnydd ystafelloedd lleoliadau glan môr wedi amrywio rhwng uchafbwynt o 46% yn 2010 ac isafbwynt o 28% yn 2017. Bu cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau mewn lleoliadau gwledig/pentref yn fwyaf cyson ers 2008 (yn yr ystod 30%-37%) gyda 2016 a 2017 yn dangos y lefelau uchaf o ddefnydd ystafelloedd ers 2010.

4.9 Defnydd yn ôl Graddiad

Fel gyda gwestai, cafodd cyfraddau defnydd Tai Llety/Gwely a Brecwast eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru.

Mae Ffigur 4.11 yn cyflwyno ffigurau blyneddol defnydd ystafelloedd a gwelyau yn ôl graddiad ar gyfer 2017. Gan fod maint sampl bach iawn ar gyfer sefydliadau gyda 1 neu 2 seren, nid oes unrhyw ffigurau ar gael ar gyfer y categorïau graddiad yma. Dylid nodi hefyd nad yw pob sefydliad yn cyflenwi gwybodaeth graddio ac felly mae cyfanswm maint y sampl yn llai nag ar gyfer categorïau dadansoddi eraill.

Ffigur 4.11 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd yn ôl Graddiad Tai Llety/Gwely a Brecwast - 2017 (%)



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cofnodwyd cydberthynas rhwng lefelau graddiad a defnydd yn 2017. Cofnododd Tai Llety/Gwely a Brecwast heb raddiad gyfradd blynyddol defnydd gwelyau o 18% a chyfradd flynyddol defnydd ystafelloedd 20%, y ddau yn sylweddol is na'r rhai a gofnodwyd ar gyfer sefydliadau gyda graddiad o 3 seren neu fwy.

O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, cynyddodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ar gyfer 2017 mewn cydberthynas gyda'r nifer o sêr a ddyfarnwyd i sefydliadau ym mhob categori. Cofnododd sefydliadau 3-seren ddefnydd cyfartalog blynyddol o 27% ar gyfer defnydd gwelyau o gymharu gyda 38% ar gyfer rhai gyda graddiad 4-seren, yn codi i 41% ar gyfer tai llety/gwely a brecwast gyda graddiad 5 seren.

Tabl 4.8 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Graddiad (%)

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd											
	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Heb raddiad	36	34	22	26	24	19	26	22	23	22	20
3 Seren	38	35	38	36	31	32	31	34	37	40	38
4 Seren	43	40	38	39	36	37	37	33	37	43	42
5 Seren	-	41	48	43	35	32	36	39	46	47	48

- data dim ar gael ar gyfer 2007

Ym mron bob math graddiad, roedd gostyngiad o naill ai ddau neu un pwynt canran yng nghyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd yn 2017, ar wahân i'r ffigur ar gyfer tai llety/gwely a brecwast 5 seren (48%) a gynyddodd gan 1 pwynt canran, yr uchaf ers yr un ffigur yn 2009. Yn gyffredinol, mae sefydliadau heb raddiad yn parhau i beidio gwneud cystal â thai llety/gwely a brecwast gyda graddiad seren, gan weld gostyngiad parhaus dros y 3 blynedd ddiwethaf o 26% yn 2013 i 20% yn 2017.


5. Pob Llety â Gwasanaeth

Mae adran yma o'r adroddiad yn cyflwyno lefelau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau ar gyfer yr holl wahanol fathau o lety â gwasanaeth h/y. Gwestai, Tai Llety a Gwely a Brecwast gyda'i gilydd. Dylid nodi, o 2014, fod data gwesty yn cynnwys data gan STR ar gyfer gwestai mwy gyda 100+ ystafell.

5.1 Defnydd Cyfartalog Gwelyau ac Ystafelloedd

Roedd cyfradd blynyddol cyfartalog defnydd gwelyau ar gyfer pob llety â gwasanaeth ar draws Cymru yn 2017 yn 51%, tra bod cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn 67%.

Ffigur 5.1 – Llety â Gwasanaeth - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)




Ar ôl cyfnod o chwe mlynedd (2008 i 2013) pan gofnodwyd cyfradd o rhwng 38% a 40% ar gyfer defnydd cyfartalog blynyddol gwelyau, gwelodd y pedair blynedd nesaf y gyfradd yn codi o 40% i 50% (cynnydd o 10 pwynt canran), lefel a gynyddodd eto yn 2017, hyd at ddefnydd gwelyau 51%. Dangosodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd hefyd lawer o gysondeb dros y cyfnod 2008 i 2012 gyda chyfradd o 52% wedi'i gofnodi bob blwyddyn. Ers cynnwys data STR yn y categori ystafelloedd mwy yn 2014, bu defnydd cyfartalog blynyddol ystafelloedd yn gyson uwch na phob blwyddyn flaenorol, gyda lefelau ar 66% yn 2014 i 67% yn 2017.

5.2 Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd ar gyfer pob llety â gwasanaeth yn Ffigur 5.2 islaw.

Ffigur 5.2 – Llety â Gwasanaeth - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2017 (%)



Fel y nodwyd yn flaenorol yn adrannau 3 a 4, arhosodd natur dymhorol llety â gwasanaeth yn amlwg yn 2017. Ar gyfer y sector cyfun, cyrhaeddodd cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd eu huchafbwynt yng Ngorffennaf ac Awst pan gofnodwyd cyfraddau o 58% a 61% (defnydd gwelyau) a 73% a 75% (defnydd ystafelloedd). Cofnodwyd lefelau is y tu allan y prif dymor yr haf gyda'r cyfartaleddau isaf yn Ionawr 2017 - 32% (defnydd gwelyau) a 43% (defnydd ystafelloedd).

5.3 Canran Gwesteion Tramor

Gofynnir i weithredwyr ddynodi nifer y gwesteion sy'n aros yn eu sefydliad bob nos yn ôl cenedligrwydd - y Deyrnas Unedig a thramor - ar eu ffurflen defnydd misol. Dylid nodi nad yw pawb sy'n ymateb yn rhoi'r wybodaeth yma felly mae angen gofal wrth drin canlyniadau.

O ddechrau 2008, ni chafodd gwybodaeth am gyraeddiadau ar gyfer gwesteion o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor ei chasglu, sydd wedi effeithio ar y ffordd y cafodd data ar gyfer gwesteion tramor ei gyfrif. Yn flaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y cyraeddiadau newydd bob dydd (ar gyfer y Deyrnas Unedig a hefyd dramor) ac roedd y canran o ymwelwyr tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cyraeddiadau. Ni chaiff yr wybodaeth ar gyraeddiadau ei chasglu erbyn hyn, ac fel canlyniad caiff y gyfran o arosiadau tramor ei gyflwyno fel canran o nosweithiau gwely (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn ac i sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu yn seiliedig ar yr un broses fethodolegol, cafodd faint o wybodaeth tueddiad a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor ei ostwng ac mae ffocws yr adroddiad hwn ar ganlyniadau 2010 i 2017 (trosodd).

Tabl 5.1 – Llety â Gwasanaeth - Pob Llety â Gwasanaeth - Canran Nosweithiau Gwely Tramor – 2010 - 2017 (%)

	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	6	6	6	4	3	3	2	2
Chwefror	5	5	4	4	3	3	7	4
Mawrth	5	5	5	5	3	3	5	3
Ebrill	6	6	5	7	5	4	7	7
Mai	8	8	7	8	8	8	8	8
Mehefin	8	8	6	9	9	8	8	9
Gorffennaf	10	10	10	12	10	11	11	8
Awst	8	8	9	10	9	8	10	10
Medi	8	6	7	9	6	6	6	6
Hydref	7	5	4	6	5	5	6	4
Tachwedd	7	5	3	3	3	4	4	2
Rhagfyr	7	3	4	7	5	3	2	3
Cyf. blynyddol	7	7	6	8	6	6	7	5

Mae canran gyfartalog flynyddol gwesteion tramor wedi dangos llawer o gysondeb dros y blynyddoedd, gyda'r cyfraddau a gofnodwyd rhwng 2010 a 2016 yn yr ystod 6%-8%. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn cofnodwyd amrywiadau yn ôl mis. Yn ystod 2017, arhosodd tri mis (Ebrill, Mai a Medi) ar eu lefelau 2016. Cofnododd Chwefror, Mawrth, Gorffennaf, Hydref a Tachwedd ostyngiad bach mewn lefelau defnydd (yn amrywio o 2 bwynt canran i 3 pwynt canran). Gwelodd Mehefin a Rhagfyr gynnydd o un pwynt canran o gymharu gyda 2016. Roedd y cyfartaledd blynyddol o 5% yn 2 pwynt canran yn is nag ar gyfer 2016.


6. Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar

Mae'r adran hon yn amlinellu canlyniadau defnydd allweddol ar gyfer llety hunanddarpar (bythynnod a fflatiau) ac mae'n crynhoi'r wybodaeth a gafwyd o sampl o weithredwyr annibynnol ac asiantaethau a ddilyswyd sy'n cynnig llety o'r math hwn yng Nghymru. Cynlluniwyd y sampl i fod yn fras gynrychioladol o'r amrywiaeth o lety â dodrefn a gaiff ei osod drwy weithredwyr o'r fath. Caiff mesur ei fesur ar lefel yr uned unigol drwy fynegi'r nifer o wythnosau a adawyd bob mis fel cyfran o'r wythnosau a'r unedau sydd ar gael i'w rhentu.

6.1 Defnydd Misol Unedau

Mae Ffigur 6.12 a Thabl 6.1 islaw'n cyflwyno cyfraddau blynyddol defnydd unedau ar gyfer 2009 i 2017 ar gyfer gweithredwyr annibynnol a hefyd asiantaethau.

Ffigur 6.12 – Defnydd Unedau Hunanddarpar



Wrth gymharu pob defnydd unedau hunanddarpar gyda gweithredwyr annibynnol ac asiantaethau, perfformiodd unedau a osodwyd gan asiantaethau yn well na gweithredwyr annibynnol yn ystod y cyfnod 2011 - 2015. Fodd bynnag, dylid nodi fod y sampl ar gyfer asiantaethau mawr wedi cynyddu dros y ddwy i dair blynedd diwethaf gyda chynnwys data asiantaethau mawr eraill.

Yn 2017 roedd defnydd cyfartalog blynyddol unedau hunanddarpar ar gyfer pob bwthyn a fflat yn 58%, y gyfradd uchaf yn y naw mlynedd flaenorol a chynnydd o bedwar pwynt canran ar 2016. Yn gyson gyda blynyddoedd blaenorol, parhaodd llety hunanddarpar i ddangos lefelau uchel o ddefnydd yn ystod cyfnodau brig. Cofnododd Awst y lefelau uchaf o ddefnydd ar 90% gyda Thachwedd (38%) yr isaf.

Tabl 6.1 - Hunanddarpar - Bythynnod a Fflatiau CYFAN (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	20	17	29	32	28	24	31	27	40
Chwefror	43	34	42	41	36	42	40	36	50
Mawrth	41	37	38	45	43	38	34	44	40
Ebrill	51	49	63	55	46	53	51	50	63
Mai	55	53	65	48	59	57	57	56	57
Mehefin	56	60	65	65	56	55	57	62	66
Gorffennaf	67	67	71	68	68	72	74	75	76
Awst	75	81	85	81	82	87	87	90	90
Medi	61	60	72	64	65	59	65	67	70
Hydref	45	31	55	50	53	51	52	48	58
Tachwedd	22	22	31	36	30	31	35	39	38
Rhagfyr	48	35	32	38	33	41	35	37	43
Cyf. Mai-Hydref	60	59	69	63	64	63	63	66	70
Cyf. blynyddol	50	45	54	53	50	51	50	52	58

Dengys ffigurau misol fod defnydd wedi cynyddu mewn naw allan o'r deuddeg mis yn ystod 2017 o gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol. Ar ddechrau'r flwyddyn cofnododd Ionawr (40%) a hefyd Chwefror (50%) y lefelau uchaf o ddefnydd yn ystod y misoedd hyn mewn cyfnod o naw mlynedd. Cofnododd Ebrill a Hydref eu cyfraddau defnydd uchaf hefyd, gydag Ebrill yn gyfartal â'r gyfradd defnydd uchaf fel yn 2011 a chyfraddau Hydref wedi codi gan 7% dros gyfnod pedair blynedd. Yn dilyn tueddiad blynyddoedd blaenorol, roedd ffigur Awst o 90% unwaith eto yr uchaf o'r cyfnod 2009 i 2017.

Mae cyfraddau defnydd blynyddol 2017 a Mai-Hydref yr uchaf a fuont dros y cyfnod a ddadansoddwyd.

Mae Tabl 6.2 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd blynyddol 2017 ar gyfer gweithredwyr annibynnol. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, rhoddwyd data o 2009 i 2017 hefyd i ddangos tueddiadau dros nifer o flynyddoedd.

Tabl 6.2 - Hunanddarpar - Bythynnod a Fflatiau (a osodir yn annibynnol) (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	24	22	24	22	26	23	36	27	35
Chwefror	39	34	39	32	36	37	42	38	43
Mawrth	37	36	32	31	36	31	33	37	33
Ebrill	55	56	62	53	47	50	50	46	63
Mai	62	58	60	46	53	52	51	50	55
Mehefin	70	67	59	62	53	53	58	57	62
Gorffennaf	80	73	69	67	64	68	71	66	69
Awst	88	86	87	79	78	83	78	79	86
Medi	72	67	69	62	59	53	63	64	67
Hydref	55	49	48	47	47	46	50	50	52
Tachwedd	27	27	25	32	25	26	27	33	28
Rhagfyr	36	34	30	31	32	34	37	36	33
Cyf. Mai - Hydref	71	67	65	61	59	59	62	60	65
Cyf. blynyddol	54	51	50	49	46	46	50	46	52

O gymharu â phum mlynedd yn ôl, roedd llety a osodwyd yn annibynnol ar gyfer cyfartaledd blynyddol 207 a hefyd gyfartaledd Mai - Hydref yn uwch na rhai 2012 (gan 3 a 4 pwynt canran yn yr un drefn). O gymharu â 2016, fis ar fis roedd cyfraddau defnydd 2017 yn uwch mewn naw allan o'r deuddeg mis, gyda'r gyfradd defnydd uchaf eto ym mis Awst, ar 86%.

Mae Tabl 6.3 yn cyflwyno ffigurau defnydd blynyddol ar gyfer llety hunanddarpar a osodir gan asiantaethau ar gyfer 2009 i 2017.

Roedd cyfraddau defnydd unedau a osodwyd gan asiantaethau wedi cynyddu gan 5 pwynt canran o gymharu gyda chyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd unedau yn 2016.

Tabl 6.3 - Hunanddarpar - Bythynnod a Fflatiau - a osodir gan asiantaethau) (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	16	13	34	41	30	27	30	27	40
Chwefror	45	35	46	48	35	58	39	36	50
Mawrth	44	39	44	57	56	55	34	47	41
Ebrill	49	44	64	58	46	61	52	51	63
Mai	52	49	69	52	68	68	60	58	57
Mehefin	43	56	70	70	61	58	56	63	67
Gorffennaf	54	64	73	69	73	80	75	76	77
Awst	63	78	84	83	87	95	90	90	90
Medi	51	56	75	68	74	72	66	67	71
Hydref	36	21	62	56	63	62	53	48	60
Tachwedd	17	20	40	42	40	43	38	41	41
Rhagfyr	57	38	34	50	35	59	35	37	43
Cyf. Mai - Hydref	50	54	72	66	71	72	63	67	70
Cyf. blynyddol	44	43	58	58	57	61	50	53	58


O gymharu gyda chyfartaleddau misol 2016, dangosodd ffigurau 2017 gynnydd yn Ionawr, Chwefror, Ebrill, Mehefin, Gorffennaf, Medi, Hydref a Rhagfyr, gyda data misol yn cynyddu gan 14 pwynt canran yn Chwefror sef y cynnydd mwyaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda Gorffennaf yn gweld y cynnydd lleiaf o 1 pwynt canran. Roedd cyfradd defnydd Awst o 90% yr un fath ag ar gyfer 2015 a 2016 ac er i lefelau defnydd ostwng ym Mawrth a Mai (gan 6 a 1 pwynt canran), bu cynnydd yn y cyfraddau defnydd cyffredinol ar gyfer bythynnod a fflatiau a osodwyd gan asiantaeth.

Mae'n bwysig nodi fod nifer yr unedau y cyflwynir data ar eu cyfer gan gyfranogwyr asiantaeth yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac felly mae'r cyfraddau defnydd misol yn tueddu i ddangos amrywiad rhesymol rhwng blynyddoedd. Yn 2017 roedd maint y sampl yn uwch nag yn 2015 a 2016 a gall y data hwn gan 2 neu 3 yn fwy o asiantaethau hunanddarpar fod wedi cyfrannu at y cynnydd mewn cyfraddau defnydd dros y cyfnod hwn.

6.2 Tueddiadau rhanbarthol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r lefelau defnydd ar draws gwahanol ranbarthau Cymru ar gyfer bythynnod a fflatiau o 2009 i 2017.

Ffigur 6.13 – Defnydd Unedau Hunanddarpar - Tueddiadau Rhanbarthol - Cyfan - Cyf. Blynyddol 2017



Roedd defnydd unedau hunanddarpar yn y Gogledd ar 61% yn ystod 2017 yr uchaf o blith y pedwar rhanbarth a 3 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd blynyddol ar draws Cymru ar gyfer 2017. Roedd y De Orllewin yn gyfartal â'r cyfartaledd rhanbarthol ar 58%, gyda defnydd unedau yn y Canolbarth 5 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd blynyddol yng Nghymru a'r De Ddwyrain yn sylweddol is (8 pwynt canran).

Tabl 6.4 - Hunanddarpar - Gogledd - CYFAN (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	29	23	33	35	30	28	40	25	41
Chwefror	38	44	45	40	37	54	46	36	55
Mawrth	38	42	42	45	52	50	42	50	42
Ebrill	58	61	63	58	47	62	58	55	67
Mai	66	67	69	53	67	66	66	62	59
Mehefin	70	69	69	69	61	61	59	68	74
Gorffennaf	81	74	73	68	73	78	80	80	80
Awst	89	85	85	83	88	92	91	91	92
Medi	77	75	75	68	72	69	73	69	79
Hydref	60	58	60	55	61	60	62	45	66
Tachwedd	38	36	35	41	38	42	39	42	41
Rhagfyr	44	37	33	47	35	53	27	35	38
Cyf. Mai - Hydref	74	71	72	66	71	71	72	69	75
Cyf. blynyddol	57	56	57	56	55	59	57	54	61

Yn y Gogledd cynyddodd cyfradd gyfartalog blynyddol defnydd unedau yn 2017 gan saith pwynt canran, o gymharu gyda 2016, tra cynyddodd ffigur Mai-Hydref gan chwe phwynt canran. O gymharu â chyfartaledd 2009, roedd y cyfartaledd blynyddol yn 2017 wedi cynyddu gan bedwar pwynt canran a chyfartaledd Mai-Hydref gan un pwynt canran.

Tabl 6.5 - Hunanddarpar - Gogledd - Annibynnol (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	31	23	31	25	35	26	34	31	36
Chwefror	40	44	42	36	41	42	41	47	51
Mawrth	38	39	31	38	39	31	42	40	39
Ebrill	53	61	62	57	53	62	64	53	64
Mai	71	68	68	58	64	55	66	54	50
Mehefin	74	73	62	69	62	63	58	63	66
Gorffennaf	85	78	72	65	71	70	76	71	72
Awst	88	86	87	81	86	85	80	89	89
Medi	82	73	75	61	63	59	65	61	71
Hydref	68	57	55	47	56	49	56	66	57
Tachwedd	38	31	24	34	26	27	25	34	28
Rhagfyr	38	36	30	28	33	32	38	38	35
Cyf. Mai - Hydref	78	72	70	64	67	64	67	66	67
Cyf. blynyddol	59	56	53	49	51	51	54	51	55

Gwelodd y cyfartaledd blynyddol a'r cyfartaledd Mai-Hydref mewn bythynnod a osodwyd yn annibynnol gynnydd o bedwar ac un pwynt canran yn yr un drefn o gymharu gyda 2016. Arhosodd cyfraddau defnydd yn is (4%) na'r flwyddyn frig o 2009.

Tabl 6.6 - Hunanddarpar - Gogledd - Asiantaethau (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	*	*	*	*	*	*	41	24	41
Chwefror	*	*	*	*	*	*	47	34	55
Mawrth	*	*	*	*	*	*	42	51	42
Ebrill	*	*	*	*	*	*	57	55	67
Mai	*	*	*	*	*	*	66	63	61
Mehefin	*	*	*	*	*	*	58	68	75
Gorffennaf	*	*	*	*	*	*	81	81	82
Awst	*	*	*	*	*	*	93	91	93
Medi	*	*	*	*	*	*	75	69	81
Hydref	*	*	*	*	*	*	63	43	68
Tachwedd	*	*	*	*	*	*	41	43	44
Rhagfyr	*	*	*	*	*	*	24	35	38
Cyf. Mai-Hydref	*	*	*	*	*	*	73	69	77
Cyf. blynyddoedd	*	*	*	*	*	*	57	54	62

**Nid oes data asiantaethau ar gael ar gyfer blynyddoedd cyn 2015*

Tabl 6.7 - Hunanddarpar - Canolbarth 2009 – 2017 – CYFAN (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	12	12	18	18	21	14	25	28	29
Chwefror	51	32	38	32	31	23	35	34	40
Mawrth	47	38	28	31	39	20	37	41	37
Ebrill	38	44	65	55	44	49	48	49	60
Mai	38	47	56	46	54	40	56	52	54
Mehefin	39	55	61	66	55	44	53	59	60
Gorffennaf	50	64	70	73	65	65	71	72	69
Awst	60	78	91	86	82	82	87	87	87
Medi	46	52	71	65	63	49	65	62	62
Hydref	33	16	51	47	46	46	51	52	55
Tachwedd	13	18	28	30	23	13	32	38	38
Rhagfyr	54	37	34	32	23	30	35	39	40
Cyf. Mai - Hydref	44	52	67	64	61	54	64	64	65
Cyf. blynyddol	43	41	51	49	46	39	50	51	53

Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau yn y rhanbarth hwn yn 53% yn 2017, o gymharu gyda 51% yn 2016 a 50% yn 2015. Arhosodd cyfradd Mai - Hydref yn gyfartal â lefelau 2015 a 2016 (65%). O gymharu ffigurau misol 2016 a 2017, dim ond Mawrth a Gorffennaf welodd gynnydd mewn defnydd (o 4 a 3 pwynt canran yn yr un drefn) gyda ffigur Awst eto heb newid a'r gyfradd defnydd uchaf drwy gydol y flwyddyn. Ar wahân i fisoedd Tachwedd a Medi a arhosodd ar yr un gyfradd defnydd â 2016, cynyddodd pob mis arall gyda'r cynnydd mwyaf yn Ebrill, pan gofnodwyd defnydd o 60%.

Roedd cyfartaledd blynyddol 2017 o 53% ddeg pwynt canran yn uwch nag yn 2009 (43%), tra bod cyfartaledd Mai - Hydref 2017 21 pwynt canran yn uwch nag yn 2009. Pan gymharir ffigurau misol 2009 a 2017, roedd ffigurau 2017 yn is mewn tri mis (Chwefror, Mawrth a Rhagfyr - gan hyd at 14 pwynt canran) tra ar gyfer y misoedd eraill cofnodwyd ffigurau uwch yn 2017 (gyda'r gwahaniaeth mwyaf o 27 pwynt canran yn Awst).;

Tabl 6.8 - Hunanddarpar - Canolbarth 2008 – 2016 – Annibynnol (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	16	16	18	18	19	15	17	18	18
Chwefror	40	27	38	33	31	21	24	21	25
Mawrth	40	38	28	31	35	18	29	31	22
Ebrill	59	60	65	55	43	48	52	46	52
Mai	64	58	56	46	51	37	56	48	53
Mehefin	70	66	61	63	54	45	51	54	49
Gorffennaf	81	74	70	74	65	63	66	62	55
Awst	91	88	91	86	82	80	83	78	78
Medi	70	66	71	66	62	46	59	64	54
Hydref	54	44	51	46	43	44	44	44	51
Tachwedd	23	27	28	29	23	11	18	19	22
Rhagfyr	31	37	34	32	23	26	27	29	26
Cyf. Mai-Hydref	72	66	67	64	60	53	60	58	56
Cyf. blynyddol	53	50	51	48	44	37	43	41	40

Ar gyfer gweithredwyr annibynnol yn y Canolbarth, roedd cyfartaledd Mai - Hydref a'r cyfartaledd blynyddol ychydig yn is (gan 2 ac 1 pwynt canran yn yr un drefn) o gymharu gyda 2016.

Cofnododd pum mis (Chwefror, Ebrill, Mai, Hydref a Thachwedd) gynnydd o rhwng 3 a 7 pwynt canran. Eto, parhaodd Awst y mis gyda'r ffigurau defnydd uchaf (78%) gyda chyfraddau defnydd y misoedd eraill yn gostwng rhwng 3 a 10 pwynt canran. O gymharu gyda 2009, ar wahân i Ionawr 2017 dangosodd ffigurau ostyngiad ym mhob mis (yn amrywio o 7-26 pwynt canran).

Tabl 6.9 - Hunanddarpar - Canolbarth - Asiantaethau (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	*	*	*	*	*	*	23	30	30
Chwefror	*	*	*	*	*	*	35	36	42
Mawrth	*	*	*	*	*	*	38	42	39
Ebrill	*	*	*	*	*	*	48	49	61
Mai	*	*	*	*	*	*	55	53	54
Mehefin	*	*	*	*	*	*	54	60	61
Gorffennaf	*	*	*	*	*	*	72	73	71
Awst	*	*	*	*	*	*	89	88	88
Medi	*	*	*	*	*	*	62	62	62
Hydref	*	*	*	*	*	*	52	53	56
Tachwedd	*	*	*	*	*	*	34	40	40
Rhagfyr	*	*	*	*	*	*	39	40	42
Cyf. Mai - Hydref	*	*	*	*	*	*	64	65	65
Cyf. blynyddol	*	*	*	*	*	*	51	52	54

**Nid oes data asiantaethau ar gael ar gyfer blynyddoedd cyn 2015 oherwydd maint bach y sampl.*

Tabl 6.10 - Hunanddarpar - De Ddwyrain 2008 – 2016 - Annibynnol (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	28	54	37	43	40	34	50	35	61
Chwefror	28	52	45	54	46	40	42	43	44
Mawrth	29	32	36	66	52	44	27	44	38
Ebrill	54	53	54	52	52	49	45	42	57
Mai	46	53	56	53	60	49	54	38	38
Mehefin	68	58	56	63	56	50	64	56	30
Gorffennaf	83	67	67	74	66	73	65	60	62
Awst	83	75	74	73	71	71	59	61	76
Medi	67	54	57	66	56	53	57	49	62
Hydref	58	57	45	70	66	44	50	41	42
Tachwedd	38	40	32	46	38	37	31	37	22
Rhagfyr	59	57	38	42	46	38	54	48	48
Cyf. Mai - Hydref	67	61	59	67	62	57	58	50	50
Cyf. blynyddol	53	55	50	57	54	49	50	44	47

Yn 2017 arhosodd cyfraddau cyfartalog defnydd unedau yn y De Ddwyrain yn ei unfan gyda'r cyfartaledd blynyddol yn cynyddu gan dri phwynt canran. Roedd defnydd cyfartalog unedau wedi cynyddu mewn saith o'r misoedd (Ionawr, Chwefror, Ebrill, Gorffennaf, Awst, Medi a Hydref) gyda'r cynnydd yn amrywio o 1 pwynt canran yn Chwefror a Hydref i 26% yn Ionawr. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ym Mehefin a Thachwedd (26 a 15 pwynt canran yn yr un drefn).

O gymharu â data 2017, mae ffigurau ar gyfer cyfartaleddau blynyddol a Mai-Hydref wedi gostwng - gan 6 a 17 pwynt canran yn yr un drefn. Dim ond y ffigurau misol ar gyfer Ionawr, Chwefror, Mawrth ac Ebrill ddangosodd gynnydd o gymharu gyda 2009.

Dylid nodi nad oedd data ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar yn y De Ddwyrain cyn 2015 oherwydd maint sampl bach ac amrywiadau mewn meintiau sampl yn dylanwadu ar gyfraddau defnydd. Yn ychwanegol, mae nifer yr unedau y cyflwynir data ar ei gyfer yn amrywio ac felly mae'r cyfraddau defnydd misol wedi dangos rhywfaint o amrywiad rhwng blynyddoedd.

Tabl 6.11 - Hunanddarpar - De Ddwyrain - 2015-2016 - Asiantaethau (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	*	*	*	*	*	*	28	31	32
Chwefror	*	*	*	*	*	*	30	33	43
Mawrth	*	*	*	*	*	*	36	49	33
Ebrill	*	*	*	*	*	*	51	43	57
Mai	*	*	*	*	*	*	55	57	50
Mehefin	*	*	*	*	*	*	53	60	62
Gorffennaf	*	*	*	*	*	*	70	76	75
Awst	*	*	*	*	*	*	86	85	88
Medi	*	*	*	*	*	*	65	71	64
Hydref	*	*	*	*	*	*	54	43	49
Tachwedd	*	*	*	*	*	*	39	36	30
Rhagfyr	*	*	*	*	*	*	36	42	33
Cyf. Mai - Hydref	*	*	*	*	*	*	51	65	65
Cyf. blynyddol	*	*	*	*	*	*	64	48	51

*Nid oes data asiantaeth ar gael ar gyfer y blynyddoedd cyn 2015 oherwydd maint bach y sampl

Tabl 6.12 - Hunanddarpar - De Orllewin - 2008 – 2016 - Annibynnol (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	20	16	17	22	23	21	35	25	36
Chwefror	40	25	34	28	32	30	47	34	46
Mawrth	36	32	34	29	28	32	34	34	33
Ebrill	56	50	61	50	47	48	46	44	66
Mai	53	52	59	40	48	61	42	51	62
Mehefin	67	64	58	60	48	57	58	57	71
Gorffennaf	73	70	66	61	62	68	74	66	71
Awst	86	87	87	77	76	88	88	80	87
Medi	65	65	67	58	58	54	68	71	68
Hydref	44	45	41	39	40	46	49	48	50
Tachwedd	17	20	21	25	22	30	28	33	30
Rhagfyr	29	24	24	23	29	37	28	34	29
Cyf. Mai - Hydref	65	64	63	56	56	52	62	62	68
Cyf. blynyddol	49	46	48	46	44	48	49	46	54

Yn y De Orllewin, mae ffigur cyfartalog blynyddol defnydd unedau ar gyfer 2017 yn dangos cynnydd o wyth pwynt canran o gymharu gyda 2016, tra cynyddodd ffigur Mai - Hydref gan chwe phwynt canran. Cofnodwyd cynnydd mewn cyfradd defnydd unedau ar gyfer wyth mis o 2017, gyda'r cynnydd mwyaf eto yn Ebrill (22 pwynt canran). Fodd bynnag, efallai bod y ffigur hwn yn adlewyrchu fod y Pasg ym mis Ebrill yn 2017 o gymharu gyda mis Mawrth y flwyddyn flaenorol. O gymharu gyda ffigurau 2009, mae data 2017 yn dangos fod cyfradd fisol defnydd unedau yn uwch

mewn naw mis, gyda'r mwyaf ohonynt yn Ionawr (+16). O gymharu gyda 2009, cynyddodd y gyfradd flynyddol gan 5 pwynt canran a chynyddodd cyfartaledd Mai - Hydref gan 3 pwynt canran.

Tabl 6.13 - Hunanddarpar - De Orllewin – 2015-2017 - Asiantaethau (%)


Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	*	*	*	*	*	*	22	29	52
Chwefror	*	*	*	*	*	*	36	39	53
Mawrth	*	*	*	*	*	*	38	47	43
Ebrill	*	*	*	*	*	*	50	51	59
Mai	*	*	*	*	*	*	57	55	57
Mehefin	*	*	*	*	*	*	57	61	62
Gorffennaf	*	*	*	*	*	*	70	73	78
Awst	*	*	*	*	*	*	88	94	91
Medi	*	*	*	*	*	*	57	69	71
Hydref	*	*	*	*	*	*	56	49	56
Tachwedd	*	*	*	*	*	*	37	40	40
Rhagfyr	*	*	*	*	*	*	47	35	53
Cyf. Mai - Hydref	*	*	*	*	*	*	64	67	69
Cyf. blynyddol	*	*	*	*	*	*	51	55	59

**Nid oes data asiantaethau ar gael ar gyfer blynyddoedd cyn 2015 oherwydd maint bach y sampl*

Dylid nodi nad oedd data ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar a gaiff ei osod gan asiantaethau yn y De Orllewin cyn 2015. Yn ychwanegol, mae nifer yr unedau y cyflwynir data ar eu cyfer yn amrywio ac felly mae'r cyfraddau defnydd misol wedi dangos rhywfaint o amrywiad rhwng blynyddoedd.

6.3 Defnydd yn ôl Lleoliad

Ffigur 6.14 – Defnydd Hunanddarpar yn ôl Lleoliad - Cyfartaledd Blynyddol - 2009 – 2017



Wrth edrych ar ffigur 6.15 (2009-2017), roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau mewn lleoliadau arfordirol yn uwch na defnydd unedau mewn lleoliadau mewndirol. Yn 2007 roedd cyfraddau defnydd lleoliadau mewndirol ar gyfartaledd 5 pwynt canran yn uwch na lleoliadau mewndirol (62% o gymharu gyda 57%).

Tabl 6.14 - Hunanddarpar - Lleoliadau Arfordirol - CYFAN (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	24	23	28	39	26	21	34	26	42
Chwefror	43	33	44	46	39	41	41	35	55
Mawrth	40	39	39	54	45	38	29	45	38
Ebrill	51	58	66	57	46	53	54	52	64
Mai	70	60	71	50	69	64	62	61	61
Mehefin	76	72	70	71	60	65	59	67	72
Gorffennaf	85	81	78	71	75	76	85	78	81
Awst	95	93	92	83	89	91	91	88	92
Medi	79	77	77	68	72	64	76	70	79
Hydref	58	58	55	48	55	56	57	46	62
Tachwedd	21	25	25	33	30	33	34	40	40
Rhagfyr	34	29	29	38	34	38	25	33	43
Cyf. Blynyddol	56	54	56	55	54	53	53	53	62

Lleoliadau arfordirol: Yn 2017 roedd ffigur cyfartalog blynyddol defnydd unedau 9 pwynt canran yn uwch nag yn 2016. Cyrhaeddodd ffigurau 2017 uchafbwynt o 92% yn Awst (4 pwynt canran yn uwch nag yn 2016), ac isafbwynt o 38% ym Mawrth (7 pwynt canran yn is nag yn 2016). Ar draws yr holl flwyddyn, cynyddodd defnydd mewn naw o'r deuddeg mis o gymharu gyda chanlyniadau 2016. Gwelodd Hydref ei lefelau uchaf yn ystod y cyfnod naw mlynedd.

O gymharu gyda chanlyniadau 2009, mae cyfartaledd blynyddol 2017 yn dangos cynnydd o chwe pwynt canran. Roedd hyn yn rhannol oherwydd cyfraddau defnydd uwch yn Ebrill a Thachwedd (cynnydd o 13 a 19 pwynt canran yn yr un drefn).

Tabl 6.15 - Hunanddarpar - Lleoliadau Mewndirol - CYFAN (%)

Defnydd Cyfartalog Unedau (%)									
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Ionawr	21	23	24	28	28	25	40	25	39
